

15 Mai 2018

Annwyl Swyddog Cyfrifol

## Datganiad Cydymffurfiaeth 2018

Mae'r llythyr hwn yn pennu'r broses ar gyfer cyflwyno eich datganiad cydymffurfiaeth blynyddol ar gyfer 2018 i Cymwysterau Cymru ac mae'n amlinellu ein llinellau ymholi ar gyfer eleni.

Dylai fod gennych fanylion mewngofnodi diogel eisoes ar gyfer QiW fel y gallech gwblhau a chyflwyno eich datganiad cydymffurfiaeth ar-lein. Os oes angen eich atgoffa o'ch manylion mewngofnodi, cysylltwch â ni yn [datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org](mailto:datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org).

Dim ond y Swyddog Cyfrifol sydd â'r awdurdod i gymeradwyo a chyflwyno eich datganiad cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, gellir gofyn am fanylion mewngofnodi ychwanegol fel y gall cydweithwyr olygu'r datganiad cydymffurfiaeth. Mae manylion mewngofnodi ychwanegol eisoes wedi'u rhoi i'ch cydweithwyr a chwaraeodd rôl sylweddol yn natganiad 2017. Os bydd angen rhagor o fanylion mewngofnodi, anfonwch enwau llawn a chyfeiriadau e-bost i'r mewnflwch ar gyfer datganiadau cydymffurfiaeth. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i ddsbarthu manylion mewngofnodi newydd neu negeseuon i'ch atgoffa o'ch cyfrinair o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cais.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym yn gofyn am dystiolaeth i ategu eich datganiad cydymffurfiaeth ar gyfer rhai amodau, sef:

A4	Gwrthdaro Buddiannau
A8	Camymddwyn a chamweinyddu
G6/G7	Trefniadau ar gyfer addasiadau rhesymol/ystyriaeth arbennig

Darperir manylion llawn am y math o dystiolaeth rydym yn disgwyl ei derbyn i ategu eich datganiad yn y datganiad cydymffurfiaeth ar-lein.

### Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

### Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Rydym wedi ymgynghori ag Ofqual a Rheoliadau CCEA ac wedi cytuno ar gyfnod cyflwyno cyffredin a fydd yn darparu cysondeb i gyrff dyfarnu. Gallwch gael mynediad i'ch datganiad cydymffurfiaeth ar gyfer 2018 drwy adran ddiogel gwefan QiW ([www.qiw.cymru](http://www.qiw.cymru)) o ddydd Gwener 1 Mehefin. Rhaid i chi gyflwyno eich datganiad blynyddol i ni **rhwng dydd Gwener 1 Mehefin a hanner nos dydd Gwener 28 Medi 2018**.

Mae'r fideo canllaw i ddefnyddwyr a gynhyrchwyd ar gyfer y broses gyflwyno gyntaf ar-lein yn 2017 ar gael o hyd i gyrff dyfarnu sydd am ymgysylltu â'r broses eto. Ar gyfer 2018, rydym hefyd wedi cynhyrchu cyfres o Gwestiynau Cyffredin. Mae'r rhain ar gael drwy'r [adran datganiad cydymffurfiaeth](#) ar ein gwefan a gallwch hefyd gael mynediad iddi drwy'r ddolen 'Canllawiau' yn QiW.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth arnoch ynglŷn â phroses datganiad cydymffurfiaeth 2018, mae croeso i chi gysylltu â ni yn [datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org](mailto:datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org).

Yn gywir



Denver Davies  
Pennaeth Monitro a Chydymffurfio